

NOSC 2026 Rhif 25

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 a'r
A494 (Cyffordd 34 (Cyfnewidfa
Ewloe) i Gyffordd 36 (Cyfnewidfa
Warren), Sir y Fflint)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Traffig Dros Dro) 2026

Gwnaed 17 Chwefror 2026
Yn dod i rym 22 Chwefror 2026

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffyrdd yr A55 a'r A494, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 a'r A494 (Cyffordd 34 (Cyfnewidfa Ewloe) i Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren), Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 22 Chwefror 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

NWSI 2026 No. 25

ROAD TRAFFIC, WALES

The A55 & A494 Trunk Roads
(Junction 34 (Ewloe Interchange)
to Junction 36 (Warren
Interchange), Flintshire)
(Temporary Traffic Prohibitions
and Restrictions) Order 2026

Made 17 February 2026
Coming into force 22 February 2026

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A55 and A494 trunk roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A55 and A494 Trunk Roads (Junction 34 (Ewloe Interchange) to Junction 36 (Warren Interchange), Flintshire) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2026 and this Order comes into force on 22 February 2026.

Interpretation

2. In this Order—
“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 22 Chwefror 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd/cefnffyrdd” (“*the trunk road(s)*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor a chefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);

- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road(s)” (“*y gefnffordd/cefnffyrdd*”) means the A55 Chester to Bangor trunk road and the A494 Dolgellau to South of Birkenhead trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 22 February 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or greater than 3.2 metres on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

5. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

6. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

11.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau na'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

12. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 7, 8 a 9 yn gymwys.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

13. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Chwefror 2026

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

8. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

9. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

10. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Application

11.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Suspension

12. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 7, 8 and 9 apply.

Duration of this Order

13. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

17 February 2026

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1
Gwahardd traffig dros dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 34 (Ewloe) hyd at ganolbwynt Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 33B.

Y darn o 'ddolen wrthglocwedd' tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 34.

Y darnau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35.

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 Parc Dewi Sant.

Y darn o'r ffordd gyswllt rhwng ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 Parc Dewi Sant a ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 â'r A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 34.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 â'r A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 34.

ATODLEN 2
**Terfynau cyflymder 30 mya, 40 mya a/neu 50 mya
dros dro a dim goddiwedd**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt Pinfold Lane hyd at ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 35.

SCHEDULE 1
Temporary prohibition of traffic

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the centre-point of Junction 34 (Ewloe) to the centre-point of Junction 36 (Warren Interchange).

The length of the A55 eastbound entry slip road at Junction 33B.

The length of the A55 eastbound 'anti-clockwise loop' at Junction 34.

The lengths of the eastbound exit and entry slip roads at Junction 35.

The length of the eastbound exit slip road at Junction 36.

The length of A494 St Davids Park westbound entry slip road.

The length of the link road between the A494 St Davids Park westbound entry slip road and the A494 westbound slip road to the eastbound A55 at Junction 34.

The length of the A494 westbound entry slip road to the eastbound A55 at Junction 34.

SCHEDULE 2
**Temporary 30 mph, 40 mph and/or 50 mph speed
limits and no overtaking**

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the centre-point of Pinfold Lane to the centre-point of the over-bridge at Junction 35.